future directions
for higher education in wales

cyfeiriadau'r dyfodol
ar gyfer addysg uwch yng nghymru

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Higher Education Wales Cymru Addysg Uwch

**Archebwch eich lle ar gyfer Cynhadledd Dysgu ac Addysgu genedlaethol gyntaf Cymru**

**Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2011**

Mae'r Academi Addysg Uwch wedi agor y system i archebu lle ar Gynhadledd Dysgu ac Addysgu genedlaethol gyntaf Cymru.

Cynhelir cynhadledd gyntaf *Cyfeiriadau'r Dyfodol* - Graddedigion ar gyfer Ein Dyfodol ar 26 Ebrill 2012 ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam.

Diben y gynhadledd fydd arddangos a dathlu thema gwella ansawdd, sef y thema gyntaf ar gyfer Cymru gyfan - Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol, ac mae iddi dri llinyn gwaith: Myfyrwyr fel partneriaid; Dysgu mewn gwaith; a Dysgu ar gyfer gwaith.

Crëwyd thema Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol i helpu'r sector AU yng Nghymru fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn amcanion Er mwyn ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cynulliad Cymru, lle yr amlygir dwy flaenoriaeth ar gyfer y sector: cyflenwi cyfiawnder cymdeithasol; a chefnogi economi fywiog.

Dywedodd yr Athro Craig Mahoney, Prif Weithredwr yr Academi Addysg Uwch: "Rwy'n falch bod yr Academi Addysg Uwch wedi cael y cyfle i gydlynu cynhadledd gyntaf Dysgu ac Addysgu ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gadeirio'r digwyddiad. Y gynhadledd hon yw'r digwyddiad pwysicaf yng nghalendr Dysgu ac Addysgu Cymru yn 2012, ac rwy'n hyderus y bydd y gynhadledd hon yn amlygu ymarfer rhagorol o fewn sector AU Cymru. Mae gan Gymru gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd i'w rhannu, ac rwy'n eithriadol o falch ein bod wedi cael cymaint o gefnogaeth gan y sector ar gyfer y prosiect hwn".

Dywedodd Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr Addysg Uwch Cymru: "Mae Addysg Uwch Cymru yn falch o fod yn bartner ar gyfer Cynhadledd gyntaf Dysgu ac Addysgu Cymru. Mae'n gyfle prin a gwerthfawr i ddathlu ac arddangos arbenigedd a chydnabod talent sy'n ysgogi dysgu ac addysgu rhagorol ar draws y sector. Rydym yn croesawu'r digwyddiad cyntaf hwn ac yn edrych ymlaen at fod yn rhan ohono."

Dywedodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, “Cynnig profiad dysgu o safon i fyfyrwyr, lle mae graddedigion yn barod am fyd gwaith a'u rôl fel dinasyddion, yw'r peth pwysicaf i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Rwy'n falch bod y digwyddiad hwn nid yn unig yn dod i Gymru am y tro cyntaf, ond y bydd hefyd yn llwyfan i brifysgolion Cymru arddangos y gwaith rhagorol y maent wedi'i wneud i ymgysylltu â myfyrwyr a'u helpu i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer cyflogaeth."

Gellir archebu lle ar-lein yn www.heacademy.ac.uk/events/detail/2012/26_April_FD_Conference_Glyndwr.

Nodiadau i olygyddion:

*Mae papur briffio Cyfeiriadau'r Dyfodol* ar-lein yn http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/nations/wales/Future_Directions_briefing_paper_August_2011.pdf.

Gwefan Cynhadledd gyntaf *Cyfeiriadau'r Dyfodol* – Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol - http://www.heacademy.ac.uk/events/detail/2012/26_April_FD_Conference_Glyndwr

Er Mwyn ein Dyfodol:  Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091209forourfuturecy.pdf